Bugail Israel sydd ofalus

Caneuon Ffydd: Rhif 666

Bugail Israel sydd ofalus
am ei dyner annwyl ŵyn;
mae'n eu galw yn groesawus
ac yn eu cofleidio'n fwyn.

"Gadwch iddynt ddyfod ataf,
ac na rwystrwch hwynt," medd ef,
"etifeddiaeth lân hyfrytaf
i'r fath rai yw teyrnas nef."

Dewch, blant bychain, dewch at Iesu
ceisiwch ŵyneb Brenin nef;
hoff eich gweled yn dynesu
i'ch bendithio ganddo ef.

Deuwn, Arglwydd, â'n rhai bychain,
a chyflwynwn hwynt i ti;
eiddot mwyach ni ein hunain
a'n hiliogaeth gyda ni.

PHILIP DODDRIDGE, 1702–51
cyf. MORRIS DAVIES, 1796–1876

MYFYRDOD

Hen emyn o waith Philip Doddridge, 'See Israel's gentle Shepherd stand With all engaging charms', sydd gennym yma mewn cyfieithiad gan Morris Davies. Ond mae'n emyn a genir yn aml hyd heddiw ar achlysur bedydd neu gyflwyniad plentyn i'r Eglwys yn enwedig. Mewn bedydd o'r fath, fe fydd y rhieni'n datgan eu ffydd yn Iesu Grist fel eu Harglwydd a'u Gwaredwr a'u bwriad i feithrin eu plant yn y ffydd honno. Cawn sôn am barodrwydd Iesu i fugeilio'r plant a'u derbyn i'w ofal, 'ei dyner annwyl ŵyn' ydyn nhw. Mae angen gofal bugeiliol arbennig Iesu ar blant a gallant ymateb i gariad Iesu, er efallai nad ydyn nhw'n deall holl oblygiadau eu ffydd ynddo.

Roedd Iesu yn ymwybodol o natur agored a derbyniol plant, ac fe ddefnyddiodd hynny fel llwybr i'w gariad dreiddio atyn nhw. Pan ddaeth rhieni â'u plant at Iesu er mwyn iddo eu bendithio, eu hiacháu a gweddïo efo nhw, fe geryddodd y disgyblion nhw am boeni dyn mor bwysig â Iesu. Defnyddiodd Iesu eiriau'r ail bennill yma i osod y bobl fawr yn eu lle. Roedd ei ffordd o ymwneud â nhw yn siarad cyfrolau ac yn dweud wrthyn nhw eu bod nhw'n werthfawr ganddo. Fe ychwanegodd hefyd: '"Yn wir, 'rwy'n dweud wrthych, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi,"' (Marc 10:15). Ond beth sydd mor arbennig yn null plentyn o dderbyn teyrnas Dduw? Yn wahanol i oedolion balch, mae plant yn ymwybodol o'u dibyniaeth ar eraill ac yn fwy parod i'w ymddiried eu hunain i rywun sy'n barod i'w bugeilio a'u gwarchod. Mae gallu plant hefyd i amsugno gwybodaeth a dysgeidiaeth yn rhyfeddol, a hynny hyd yn oed ar adegau pan na feddyliwn eu bod yn canolbwyntio – mae'r cwbl yn treiddio i mewn.

Yn wir, roedd Iesu wastad yn barod i ddysgu gwersi i bobl fawr trwy eu cymharu â phlant. Pan fu ei ddisgyblion yn ffraeo ynghylch pa un ohonyn nhw oedd y pwysicaf, fe gymerodd Iesu blentyn i'w freichiau a'i osod yn eu canol nhw gan ddweud: '"Pwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i"' (Marc 9:37). Roedd hi'n arfer cyfreithiol gan yr Iddewon dderbyn cynrychiolydd rhywun fel petaent yn derbyn y person ei hun. Felly, roedd derbyn plentyn bychan i'w plith yn golygu derbyn Iesu a hefyd dderbyn Duw. Dyma ein deffro i'n cyfrifoldeb aruthrol wrth feithrin plant. Rhodd gan Dduw ydyn nhw: 'plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd' (Salm 127:3 BWM). Mae gennym ni gyfrifoldeb i ddangos Iesu Grist iddyn nhw. Ac mae arnyn nhw angen personau y gallan nhw weld Iesu drwyddyn nhw. Gadewch i blant brofi ein cariad, llawenydd, heddwch, amynedd, caredigrwydd, daioni, addfwynder a hunanreolaeth, sef y rhinweddau a gaed yn helaeth yn Iesu ei hun – Bugail Israel – wrth iddo dderbyn plant ato.

GWEDDI

O Dad nefol a thad ein Harglwydd Iesu Grist, diolchwn iti am yr 'etifeddiaeth lân hyfrytaf' sydd i'th blant, a'r holl rai a ddaw atat fel plant, yn nheyrnas nef. Cynorthwya ni i'n cyflwyno ein hunain a'n plant i'th ofal tyner di, Fugail Israel. Amen.